Ionawr

The Wildlife Trust
South and West Wales
De a Gorllewin Cymru

Paratoi ar gyfer y tymor nythu adar

Y mis hwn, canolbwyntiwch ar baratoi ar gyfer y tymor nythu adar.

1. Dechreuwch drwy lanhau unrhyw offer bwydo adar neu flychod nythu sydd gennych eisoes er mwyn atal haint rhag lledu. Gwagiwch hen nythod ac unrhyw ddeunydd ynddynt, yna defnyddiwch sebon ysgafn i ddiheintio'r blwch. Bydd hyn yn helpu atal haint ac afiechyd yn yr adar fydd yn dewis nythu ynddynt. Sicrhewch bod hyn yn cael ei wneud cyn gynted ag y bo modd.
2. Os nad oes blychau fyny gennych eisoes, ystyriwch osod blychau nythu adar ac ystlumod yn eich gardd. Gallwch brynu blychau o ansawdd da gan lawer o gyflenwyr, neu os ydych yn teimlo'n grefftus, gallwch wneud rhai eich hun gan ddefnyddio'r mesuriadau a geir yma. Gwnewch yn siwr eich bod yn defnyddio pren heb ei drin.
3. Gosodwch y blychau 3-5m uwchlaw'r ddaear, ar waliau tai, siediau neu goed gan osgoi ardaloedd rhy heulog neu rhy wyntog.
4. Wrth fwydo'r adar, osgowch rhoi gnau mwnci o hyn allan am eu bod yn gallu achosi salwch ac hyd yn oed ladd cywion bach.

Addunedwch i ddefnyddio cynnyrch gwyrdd yn unig yn eich gardd ac osgoi nwyddau all beri niwed i gynefinoedd a rhywogaethau e.e. osgowch ddefnyddio peledi atal gwlithod a defnyddiwch gompost heb fawn ynddo!

Planwch goed collddail sy'n ffrwytho ac yn dwyn aeron – mae cymysgedd o rai brodorol ac estron yn gweithio'n dda e.e. Ysgawen, Corswigen, Criafolen, Draenen wen.

Rheoli dolydd

Archebwch hadau ar gyfer eich dôl flodau wyllt. Gallai hwn fod yn wely bychan neu'n gae cyfan yn dibynu beth sy'n addas i chi! Gallwch archebu hadau wedi eu cymysgu'n barod ar-lein, gan gynnwys gweiriau a blodau gwylltion fel Llygad yr Ych, o wefannau fel Emorsgate Seeds.

Planhigion sy'n blodeuo ym mis Ionawr

Eirlys

Eirlys

Adeiladwch ldwch nythu

Os hoffech chi helpu'r adar yn eich gardd, adeiladwch blwch nythu. Defnyddiwch darn o bren tua 150mm o led a'i dorri i'r meintiau a ddangosir yn y deiagram. Gwnewch clawr sy'n agor gan ddefnyddio stribed o ledr neu rwbwr, ermwyn glanhau'r blwch yn yr hydref.





Twll fynedfa: 25mm ar gyfer Titw Las, 28mm ar gyfer Titw Mawr a 32mm ar gyfer Aderyn y Tô. Torri ar ongl 45°